**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **29 MEHEFIN 2009** |
| TEITL | **CYLCH GORCHWYL ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS | **CYFLWYNO CYLCH GORWCHWYL ADDASIEDIG I'R GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL I'R PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **NODI CYNNWYS Y CYLCH GORCHWYL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio ym Mehefin 2008, ac mae'n mwyn adlewyrchu gofyniadau Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006.

1.2 Mae'r Côd Ymarfer, yn ogystal â dweud y dylid adolygu Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol yn rheolaidd, yn datgan yn canlynol am ei gynnwys:

Dylai'r sefydliad ddiffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb Archwilio Mewnol yn ffurfiol mewn Cylch Gorchwyl sydd yn gyson â'r Côd hwn. Dylai:

(a) sefydlu cyfrifoldebau ac amcanion Archwilio Mewnol

(b) sefydlu annibyniaeth sefydliadol Archwilio Mewnol

(c) sefydlu'r atebolrwydd, llinellau adrodd a'r perthnasau rhwng Pennaeth Archwilio Mewnol ac:

  (i) y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

  (ii) y rhai y gall Pennaeth Archwilio Mewnol adrodd iddynt.

(ch) gydnabod fod cylch gwaith Archwilio Mewnol yn ymestyn i amgylchedd reolaeth gyfan y sefydliad

(d) adnabod cyfarniad Archwilio Mewnol i'r adolygiad o effeithiolrwydd yr amgylchedd reolaeth

(dd) ymofyn a galluogi Pennaeth Archwilio Mewnol i gyflwyno barn archwilio blynyddol

(e) ddiffinio rôl Archwilio Mewnol mewn unrhyw waith sydd ymwneud â thwyll neu waith ymghynghorol

(f) esbonio sut bydd anghenion adnoddau Archwilio Mewnol yn cael ei asesu

(ff) sefydlu hawl mynediad Archwilio Mewnol i holl gofnodion, asedau, personél ac adeiladau, gan gynnwys rhai partneriaid, a'i awdurdod i gael y gyfryw wybodaeth ac esboniadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau.

1.3 Yn dilyn adolygiad pellach o'r Cylch Gorchwyl gwelir angen peth addasiadau iddo i adlewyrchu newidiadau yn strwythr y Cyngor a ddaeth i rym yn Ebrill 2009. Cyfarfod Mehefin 2009 o'r Pwyllgor Archwilio, felly, yw'r cyfle cyntaf i gyflwyno'r Cylch Gorchwyl addasiedig i'r Pwyllgor. Mae'r newidiadau strwythurol hyn hefyd wedi cael eu hadlewyrchu yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol diwygiedig, a fablwysiadwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 7 Mai 2009.

1.4 Nid oedd addasiadau pellach yn angenrheidiol i'r Cylch Gorchwyl ar wahân i'r rhai sydd yn adlewyrchu'r strwythr newydd.

1.5 Mae'r Cylch Gorchwyl i'w gael yn yr atodiad.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a nodi cynnwys Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol, a chefnogi'r Adain Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl.

# CYNGOR GWYNEDD

# CYLLID

# GWASANAETHAU ARCHWILIO A RHEOLI RISG

# CYLCH GORCHWYL ARCHWILIO MEWNOL

## 1. RÔL ARCHWILIO MEWNOL MEWN LLYWODRAETH LEOL

1.1 Mae angen statudol am wasanaeth Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Caiff yr angen ei ymhlygu yn Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sydd yn gofyn fod awdurdodau yn "gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth briodol o'u materion ariannol ac yn sicrhau fod un o'u swyddogion yn gyfrifol am weinyddiaeth y materion hyn".

1.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn datgan:

> **Archwilio mewnol**
>
> **6.** Bydd corff llywodraeth leol yn cynnal system digonol ac effeithiol o archwilio mewnol o'i cofnodion ariannol ac o'i system o reolaeth fewnol yn unol ag ymarferion archwilio mewnol priodol, a bydd unrhyw swyddog neu aelod o'r corff, os yw'r corff yn mynnu hynny —
>
> (a) yn gwneud unrhyw ddogfennau ar gyfer y corff sydd yn berthnasol i'w gofnodion cyfrifo a chofnodion eraill fel sy'n ymddangos i'r corff hwnnw fel bod yn angenrheidiol at bwrpasau'r archwiliad; a
>
> (b) yn cyflewi'r corff gyda'r cyfryw wybodaeth ac esboniad y mae'r corff hwnnw yn ystyried yn angenrheidiol at y pwrpasau hyn.

1.3 Diffinir "ymarferion archwilio mewnol priodol" fel Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Côd Ymarfer yn diffinio Archwilio Mewnol fel:

> **"Swyddogaeth rhoi sicrwydd yw Archwilio Mewnol sydd yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i gyfundrefn ar yr amgylchedd reolaeth[1] wrth werthuso ei effeithiolrwydd tra'n gwireddu amcanion y gyfundrefn. Mae'n archwilio, gwethuso ac adrodd yn wrthrychol ar ddigonolrwydd yr amgylchedd reolaethol fel cyfraniad i'r defnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau."**

1.4 Mae pob archwiliwr mewnol wedi derbyn copi o'r Côd Ymarfer, sydd yn sail i waith yr Adain (ac asesiad o'r Adain gan Swyddfa Archwilio Cymru).

[1] Mae'r amgylchedd reolaeth yn cynnwys y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

## 2. CYFRIFOLDEBAU AC AMCANION

2.1 Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw’r swyddog sydd â’r cyfrifoldeb am “weinyddu’n briodol faterion ariannol y Cyngor” yn unol ag Adain 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Fel canlyniad, mae’r Adain Archwilio Mewnol wedi ei leoli o fewn Cyllid.

2.2 Tra fod Archwilio Mewnol yn anad dim yn sicrhau priodoldeb ariannol, mae cylch gwaith Archwilio Mewnol yn ymestyn i holl amgylchedd reolaeth y Cyngor, ac nid yw wedi ei gyfyngu i risg ariannol yn unig.

2.3 Er mwyn diwallu’r angen i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd orau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac yn unol ag anghenion pobl Gwynedd, mae defnydd priodol o’r adnoddau sydd ar gael yn hanfodol er mwyn sicrhau fod ansawdd y gwasanaeth o safon uchel. Nod Archwilio Mewnol yw cynnig hyder i’r Pennaeth Cyllid, ac fel canlyniad i drigolion Gwynedd, fod yr adnoddau hynny sydd ar gael wedi eu rheoli a’u defnyddio’n briodol, gyda thryloywder.

2.4 Mae’n gwneud hyn drwy ddarparu barn annibynnol a gwrthrychol i’r Cyngor ar yr amgylchedd reolaeth trwy gyynnal archwiliadau ar systemau ariannol a trefniadau rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnal cyfuniad o archwiliadau risg, system, rheoleidd-dra, cyfrifiadurol a chontractau ar ystod eang o Adeniau'r Cyngor, yn unol â strategaeth a chynllun archwilio sydd yn seiliedig ar asesiad o anghenion archwilio y Cyngor.

2.5 Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn sicrhau fod archwilio mewnol yn cael ei ddarparu yn unol â’r Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol cyn belled a bo hynny yn ymarferol. I’r perwyl hwn, bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn paratoi strategaeth archwilio sydd yn seiliedig ar asesiad o anghenion archwilio y Cyngor (wedi ei lunio drwy adolygiad gwrthrychol o’r risgiau a all amharu ar ddarpariaeth gwasanethau’r Cyngor). Mae’r cynllun archwilio blynyddol yn deillio o’r cynllun strategol ac ymgynghoriad gydag Uwch Swyddogion, a bydd yn cael ei gytuno gyda’r Pennaeth Cyllid cyn iddo gael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio i’w fabwysiadu.

2.6 Yn ogystal â Cyngor Gwynedd, mae gan Archwilio Mewnol glientau allanol eraill. Caiff unrhyw gynnydd yn yr ymrwymiad ar gyfer y gwaith yma eu cytuno gyda’r Pennaeth Cyllid ymlaen llaw, a hysbysir y Pwyllgor Archwilio o hyn.

2.7 Mae Swyddfa Archwilio Cymru, fel archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddatgan barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y sefydliad a chasgliad ar ei drefniadau er mwyn sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Bydd Archwilio Mewnol yn cydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn ategu hyn, ac osgoi dyblygu gwaith.

## 3. ANNIBYNNIAETH A HAWL MYNEDIAD

3.1 Mae’r Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn pwysleisio annibynniaeth Archwilio Mewnol o ran trefn a hawl adrodd. Mae “Pennaeth Archwilio Mewnol” (yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg) yn atebol i’r Pennaeth Cyllid, ond mae ganddo’r rhyddid i adrodd yn uniongyrchol i’r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y Swyddog Monitro neu aelodau y Pwyllgor Archwilio pe bai ef o’r farn fod hynny yn angenrheidiol, ac yn ymarferol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg sydd yn rhyddhau’r holl adroddiadau i gwsmeriaid yr Adain.

3.2 Mae Archwilio Mewnol yn un o dair adain o fewn Gwasanaethau Archwilio a Rheoli Risg yr Adran Gyllid. Y ddau arall yw’r Adain Atal Twyll Budd-daliadau a’r Adain Yswiriant a Risg. Ni fydd yr Archwilwyr Mewnol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gweithredol arall o fewn y Cyngor, oni bai fod yr angen am y gwaith â cymaint o frys nad oes adnoddau staff amgen ar gael i gyflawni’r gwaith, a fod y gwaith i’w gynnal am y cyfnod byrraf bosib.

3.3 Bydd pob Archwiliwr Mewnol yn arwyddo Datganiad Annibyniaeth Archwiliwr yn flynyddol.

3.4 Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor yn cynnwys darpariaeth am wasanaeth Archwilio Mewnol o fewn yr awdurdod:

**12. ARCHWILIAD MEWNOL**

*<u>Pwrpas</u>*
*Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn mynegi’r gofyniad am swyddogaeth archwilio fewnol ac felly swyddogaeth werthuso annibynnol a gwrthrychol yw hi a sefydlwyd gan yr awdurdod er mwyn adolygu’r system reoli fewnol.*

12.1 Bydd archwiliad mewnol parhaus, dan reolaeth a chyfarwyddyd annibynnol y Pennaeth Cyllid, i gyfrifon a gweithgareddau ariannol ac eraill y Cyngor, yn unol â’r Rheoliadau Archwilio a Chyfrifo.

12.2 Gweithredir y swyddogaeth Archwilio Mewnol hyd ag y bo modd yn unol â *Côd Ymarfer Archwiliad Mewnol mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Gyfunol CIPFA*. Y “Pennaeth Archwiliad Mewnol” dynodedig yw’r Uwch Reolwr Archwilio & Risg, yn unol â’r Côd Ymarfer.

12.3 Fel arfer bydd yr Uwch Reolwr Archwilio & Risg yn adrodd yn uniongyrchol i’r Pennaeth Cyllid. Fodd bynnag, caiff hefyd adrodd i a chael troi at y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio os yw hynny’n angenrheidiol yn ei dyb ef mewn amgylchiadau neilltuol.

12.4 Bydd gan y Pennaeth Cyllid a’r Uwch Reolwr Archwilio & Risg, neu eu cynrychiolydd cydnabyddedig, awdurdod:-

a) i fynd i mewn i unrhyw adeilad, tir neu safle contractio eiddo’r Cyngor ar unrhyw amser rhesymol;
b) i gael gweld yr holl gofnodion, dogfennau a llythyrau sy’n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill o eiddo’r Cyngor;
c) i ofyn am, a derbyn, esboniadau sy’n angenrheidiol, yn ei dyb ef, ar unrhyw fater sy’n cael ei archwilio;
ch) i ofyn i unrhyw un sy’n gweithio i’r Cyngor ddangos unrhyw arian parod, nwyddau neu eiddo arall yn perthyn i’r Cyngor sydd yn ei ofal.

12.5 Bydd y Pennaeth Cyllid yn cytuno ar y cynlluniau archwilio canoldymor a blynyddol a baratowyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio & Risg ac sy'n ystyried nodweddion a risgiau perthynol y gweithgareddau dan sylw. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo'r cynlluniau.

12.6 Bydd pob swyddog priodol yn ystyried ac yn ymateb i argymhellion yr adroddiadau archwilio. Bydd Prif Swyddogion yn gofalu bod unrhyw weithgaredd a gytunwyd arno ar sail argymhellion yr archwiliad wedi'i wireddu yn amserol ac effeithlon yn unol â'r cynllun gweithredu a gytunwyd.

12.7 Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio & Risg yn adrodd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar ganlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod blaenorol, a bydd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw wendidau rheolaeth sylweddol a ddarganfuwyd neu a archwiliwyd.

12.8 Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio & Risg yn adrodd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar unrhyw argymhellion archwilio na wireddwyd o fewn amserlen a gytunwyd, lle byddai methiant i weithredu ar yr argymhellion hynny wedi ymestyn gwendid rheoli sylweddol.

12.9 Os cyfyd unrhyw fater sydd neu y tybir ei fod yn ymwneud ag afreoleidd-dra ynglŷn ag arian parod, nwyddau neu unrhyw drefniant i hawlio taliad amhriodol gan y Cyngor (gan gynnwys taflenni amser gwaith neu geisiadau teithio) neu eiddo arall o eiddo'r Cyngor, yna rhaid i'r Prif Swyddog neu swyddog arall sy'n gwneud y darganfyddiad ddilyn Strategaeth Gwrth-Dwyll y Cyngor a rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r Pennaeth Cyllid a/neu'r Uwch Reolwr Archwilio & Risg, a fydd yn cymryd y camau angenrheidiol i ymchwilio i'r mater a pharatoi adroddiad.

12.10 Pan fo'r Swyddog Monitro, ar ôl ystyried y fath adroddiad, o'r farn bod achos *prima facie* o dorri y gyfraith droseddol, yn ôl doethineb y Pennaeth Cyllid, gellir adrodd am y mater wrth yr Heddlu i'w ymchwilio ymhellach. Os bydd hynny'n ymwneud â rhywun a gyflogir gan y Cyngor, bydd disgyblu'n digwydd ar fyrder yn unol â Threfn Ddisgyblu'r Cyngor, boed y mater yn cael ei gyfeirio at yr Heddlu ynte peidio.

12.11 Pan gollir eiddo (gan gynnwys colled trwy dân) neu arian parod rhaid i'r Prif Swyddog neu'r Swyddog arall sy'n gwneud y darganfyddiad roddi gwybod am hynny ar unwaith i Swyddog Yswiriant y Cyngor a fydd yn gyfrifol am wneud yr hawliad priodol ar gwmni yswiriant y Cyngor.

## 4. PERTHYNAS GYDA'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU

4.1 Mae'r Cyngor wedi penderfynnu mai'r Pwyllgor Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lyodraethu" yng Nghyngor Gwynedd.

4.2 Fel arfer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fydd y prif bwynt cyswllt rhwng yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ac aelodau etholedig. Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn sicrhau fod perthnasau gweithio a sianeli cyfathrebu da gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi eu cynnal.

4.3 Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn paratoi adroddiad i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn amlinellu y gwaith a gwblhawyd yn y cyfnod yn arwain i fyny i'r cyfarfod hwnnw.

4.4 Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg hefyd yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio ar gynnydd yn erbyn y cynllun archwilio blynyddol.

## 5. ADRODDIADAU

5.1 Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn sicrhau trefn o oruchwylio gwaith ac adolygu ffeiliau gan yr Arweinyddion Timau perthnasol, ac yn casglu data a paratoi adroddiadau ar berfformiad yr Adain ar gyfer y Pennaeth Cyllid yn unol â fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor.

5.2 Bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei baratoi ar gyfer y mwyafrif o archwiliadau a gwblheir, ar wahân i rai archwiliadau bychain ble na ganfuwyd gwendidau sylweddol a nad oedd adroddiad archwiliad cyflawn yn angenrheidiol. Yn yr achosion hyn, anfonir memoranda i'r swyddogion perthnasol.

5.3 Ar wahân i adroddiadau sydd wedi eu paratoi yn dilyn archwiliad arbennig, bydd pob adroddiad wedi ei gosod mewn un o 4 categori barn, yn ddibynnol ar farn yr archwiliad o ddigonolrwydd y rheolaethau mewnol, effeithiolrwydd gweithredu'r rheolaethau mewnol a chanlyniadau unrhyw fethiant i roi rheolaethau effeithiol yn eu lle. Y categorïau hyn yw:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

5.4 Ar ôl cwblhau gwaith archwilio, caiff adroddiad drafft ei baratoi ar gyfer y rheolwyr perthnasol er mwyn iddynt gael cyfle i roi sylwadau ar y canfyddiadau ac i gywiro unrhyw wallau ffeithiol. Rhoddir cyfnod o 2-3 wythnos i reolwyr ymateb i'r drafft, ond ystyrir cyfnod hirach pe derbynir cais am estyniad. Os na dderbynir ymateb erbyn y dyddiad a amlinellir, tybir fod yr adroddiad yn dderbyniol a caiff adroddiad terfynol ei ryddhau. Os derbynnir sylwadau, caiff rhain eu hystyried (a gellir addasu'r adroddiad drafft, neu beidio) cyn rhyddhau yr adroddiad terfynol.

5.5 Disgwylir i reolwyr arwyddo a dychwelyd copi o gynllun gweithredu pob adroddiad terfynol a gaiff ei gyhoeddi. Mae hyn yn fodd o sicrhau cytundeb y swyddogion eu bod yn derbyn ac yn cytuno i weithredu'r argymhellion. Wedi cyfnod priodol, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn cynnal profion dilyniant er mwyn sicrhau fod yr argymhellion wedi eu gweithredu. Caiff canlyniadau gwaith dilyniant ei adrodd i Brif Swyddogion ac i'r Pwyllgor Archwilio.

## 6. BARN ARCHWILIO BLYNYDDOL

6.1 Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn paratoi adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio yn gyfarfod cyntaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol yn unol â gofynion y Côd Ymarfer.

6.2 Bydd canlyniadau'r Adroddiad Blynyddol hwn yn treiddio i Ddatganiad Rheolaeth Fewnol y Cyngor.

## 7. GWAITH AR WAHÂN I WAITH SICRWYDD

7.1 Yn ogystal â'r gwaith sicrwydd a ddisgrifir mewn mannau eraill o'r Cylch Gorchwyl, mae'r Adain Archwilio Mewnol hefyd yn:

- Cynnig cyngor ariannol i wasanaethau'r Cyngor, yn arbennig ar Reolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefn Contractau, Codau Ymarfer Ariannol a Strategaeth Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd y Cyngor.

- Cynorthwyo rheolwyr gwasanaethau i atal twyll ac ymchwilio i dwyll ar ran y Pennaeth Cyllid, a cynnig cyngor ar welliannau rheolaethol i osgoi digwyddiadau tebyg i'r dyfodol.

## 8. ANGHENION ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

8.1 Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg a 4 tîm archwilio. Pe bai'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg o'r farn nad oes ganddo adnoddau digonol i'w ganiatau i roddi barn ar yr amgylchedd reolaeth yn unol â gofynion y Côd Ymarfer, bydd yn adrodd hynny i'r Pennaeth Cyllid.

8.2 Mae arweinyddion y timau yn gyfrifol am oruchwylio ac adolygu gwaith, ac am rannu y cynllun archwilio i brosiectau ar gyfer archwilwyr unigol.

8.3 Bydd Tîm Rheoli (yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ac Arweinyddion y 4 tîm archwilio) yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn monitro perfformiad, rhannu gwybodaeth a cytuno ar gyfeiriad strategol y gwasanaeth Archwilio.

8.4 O dro i dro, i adlewyrchu'r anghenion archwilio, ac yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn prynu arbennigedd o'r tu allan i gynorthwyo gyda'r gwaith archwilio ac er mwyn cynnal lefelau sgiliau y staff parhaol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir ym maes archwilio cyfrifiadurol, ond ni eithrir mathau eraill o archwiliadau o'r ddarpariaeth yma.

## 9. DOGFENNAETH BERTHNASOL

9.1 Yn ogystal â'r adroddiad yma, mae'r dogfennau canlynol hefyd o bwysigrwydd i'r gwasanaeth archwilio mewnol:

- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio
- Rheoliadau Ariannol
- Codau Ymarfer Ariannol
- Rheolau Sefydlog Parthed Contractau
- Strategaeth Gwrth-Dwyll a Gwrth-Lygredd y Cyngor
- Polisi Canu'r Gloch y Cyngor.

Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu a chynnig addasiadau i'r dogfennau hyn fel bo'r angen.